PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 31/32 | Awst 3/10, 2023 | 50c.

## CROESO I EISTEDDFOD LLŶN AC EIFIONYDD 5-12 AWST




**Wrth estyn croeso i'r brifwyl, mae'r Parchg Iwan Llewelyn, gweinidog yn yr ardal ac un o olygyddion *Y Tyst*, yn adrodd hanes un o fawrion y fro.**

Mae yna groeso cynnes yn eich aros yn y fro arbennig yma. Llŷn ac Eifionydd, ie – ond mae'r dalgylch wedi ymestyn i gynnwys Arfon a rhan ogleddol Meirionnydd yn ogystal.

Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal y Brifwyl yma yn 2021, ond fe ddaeth y Covid gan wthio'r Eisteddfod hon, fel Tregaron y llynedd, ddwy flynedd i'r dyfodol. Mae'r fro, fel y croeso, yn un gynnes. Mae hefyd yn ardal hynod ddiwylliedig wnaeth fagu stôr o bobl ddaeth yn amlwg yn eu meysydd ar hyd y canrifoedd. Hoffwn gyfeirio at un bardd a gweinidog na chynhwyswyd rhai o'i emynau, gwaetha'r modd, yng nghymanfa ganu'r Eisteddfod.

### Fuoch chi 'rioed yn Llaniestyn?

Un o'r pentrefi anoddaf i'w ddarganfod yn Llŷn yw Llaniestyn (mae gen i hawl i ddweud hynny oherwydd bod gen i deulu yno!). Dim ond Reheboth, capel yr Annibynwyr, sy'n dal ar agor. Ynddo ceir cofeb i un o feibion y fro a godwyd yn y capel, sef John Henry Hughes (1814-93). Fe'i ganwyd yn Nhy'n-y-Pwll, Garn Fadryn, o fewn ergyd carreg i Laniestyn, ac yn yr union dŷ, flynyddoedd maith yn ddiweddarach, y ganwyd Dilwyn Morgan y diddanwr, sy'n byw yn y Bala bellach. Enw barddol John Henry oedd Ieuan o Leyn (sylwer ar yr hen sillafiad o'r gair Llŷn) Wedi cyfnod yn ysgol ramadeg Botwnnog

*parhad ar dudalen 2*

## FFYNHONNAU BYW: APÊL COLOMBIA




Cafodd Apêl Ffynhonnau Byw-Colombia, ar y cyd rhwng Cymorth Cristnogol ac Undeb yr Annibynwyr, ei lansio yn ystod cyfarfodydd yr Undeb yn Rhosllannerchrugog. Mae'r Parchg Robin Samuel wedi llunio gweddi arbennig fel rhan o'r apêl (gweler tud. 10). Ysbrydolwyd yr enw Ffynhonnau Byw gan adnod o Lyfr y Proffwyd Eseia: 'bydd y crastir yn llyn, a'r tir sych yn ffynhonnau byw; yn y tir garw, lle cyrcha'r siacal, bydd gweirglodd o gorsennau a brwyn.' (Eseia 35:7)

## CYDNABOD CYFRANIAD ALLWEDDOL BETI-WYN



Cafodd cyfraniad aruthrol y Parchg Beti-Wyn James i fywyd Cristnogol a'r gymuned ehangach yn ardal Caerfyrddin ac yn genedlaethol ei gydnabod trwy iddi gael ei hurddo'n Gymrawd Anrhydeddus Prifysgol y Drindod Dewi Sant. Llongyfarchiadau mawr iddi am gydnabyddiaeth hollol haeddiannol.

Wrth ei chyflwyno i'r gynulleidfa, fe dalwyd teyrnged iddi gan Dr Lowri Lloyd, ar ran y brifysgol, yn enwedig am ei gwaith amhrisiadwy yn cynnal pobl yn ystod cyfnod clo Covid. 'A ninnau yn ein swigod unig, a drysau ein tai ar gau a'n capeli dan glo, fe roddodd Beti-Wyn allwedd a mynediad amhrisiadwy i addolwyr Cymru a thu hwnt trwy ddarlledu oedfaon Cymraeg digidol dros y we. Yn sydyn, er yn bell, trwy'r tonfeddi, daethom oll yn gymaint nes.'

*mwy ar dudalen 11*

**Cyflwynwyd cywydd arbennig i Beti-Wyn gan Dr Lowri Lloyd:**

*Pan fu pell gymaint pellach*
*A'n byd yn llawn swigod bach,*
*Ymroi i agor cloeon,*
*Rhyddhau hualau wnaeth hon.*
*Rho'dd olau i'r dyddiau du,*
*hi, ein hallwedd, a'i gallu*
*trwy dirwedd y tonfeddi*
*a'n cadwodd, a'n hunodd ni.*

# O DDYFODOL YR IAITH I DDYFODOL Y BYD – Deddfau newydd sy'n bygwth ein hawliau ni i gyd

*Yn sgil protestiadau gan y rhai sy'n ymgyrchu yn erbyn newid hinsawdd trwy rwystro ffyrdd, mae Llywodraeth Prydain wedi cyflwyno deddfau newydd i'w cosbi nhw'n llym. Mae dau ohonynt eisoes mewn carchar am dair blynedd. Roedd Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin o'r farn bod Deddf Drefn Gyhoeddus (2023) yn bygwth hawliau pawb i brotestio'n gyhoeddus ar faterion pwysig, ac yng nghyfarfodydd blynyddol yr Undeb yn Rhosllannerchrugog, derbyniwyd penderfyniad ein bod yn datgan yn ddiamwys bod yr hawl i brotestio'n ddi-drais yn gonglfaen sylfaenol i unrhyw gymdeithas ddemocrataidd. Dyma ddywedodd Alun Lenny wrth gyflwyno'r cynnig ar ran y cyfundeb.*

Ydych chi'n cofio *'Daw fe ddaw yr awr'* gan Dafydd Iwan? 'Wyt ti'n cofio pont Trefechan a'r brotest gynta i gyd? / A'r Cardis yn ffaelu deall pam oedd Cymry'n blocio'r stryd, heb ddim achos ...'

'Petaen nhw'n gwneud hynny heddiw, bydden nhw mewn cyffion, mewn cell ac yn y carchar cyn gallech chi ddweud 'Yma o Hyd!' Oherwydd mae Llywodraeth y DU wedi dod a deddfau newydd i rym y llynedd ac eto eleni i gryfhau pwerau'r heddlu a rhoi'r hawl i'r llysoedd i gosbi'r fath brotestwyr yn llym. Blociwyd pont Trefechan ym 1963 er mwyn mynnu statws i'r iaith Gymraeg, a heddiw mae'r bobol yna'n arwyr. Ond bryd hynny mae'n siŵr bod ymdeimlad o ddicter yn eu herbyn gan y mwyafrif, fel meddai llinell arall o'r un gân gan Dafydd, 'Y ffylied dwl i beth?' Mae'n siŵr mai dyma agwedd trwch poblogaeth Prydain heddiw tuag at XR a Just Stop Oil. Mae eu hymgyrch hwy'n fwy nag achub iaith – maen nhw'n ymgyrchu dros achub dynoliaeth ar y blaned hon rhag hunanddinistriad. Thomas Jefferson, trydydd Arlywydd UDA, oedd yn ymfalchïo yn ei dras Gymreig, a ddywedodd: 'The price of liberty is eternal vigilance.' Pris rhyddid yw gwyliadwriaeth dragwyddol. Byddwn yn wyliadwrus gyfeillion.

*parhad ar dudalen 11*

# CROESO I EISTEDDFOD LLŶN AC EIFIONYDD 5-12 AWST – parhad

gerllaw, bu'n hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth yng Ngholeg Aberhonddu. Yn 1843 fe'i hordeiniwyd a'i sefydlu'n weinidog yn Llangollen a phriodi Jane Jones o'r dref honno.

**Cenhadwr**

Yn 1847 atebodd wahoddiad gan Gymdeithas Genhadol Llundain i wasanaethu fel cenhadwr yn Demerara (Guyana bellach) yn Ne America. Ond ni chafodd o na'i wraig iechyd cryf yno a dychwelodd y teulu i Hartlepool yn Swydd Durham yn 1854, a bu'n gweinidogaethu efo'r Annibynwyr Saesneg yno. Daeth 'nôl i Gymru yn 1875 i wasanaethu Annibynwyr Saesneg Cefn Mawr ger Wrecsam, ac yn yr ardal honno y bu weddill ei ddyddiau.

**Emynydd**

Roedd yn fardd ac emynydd o fri. Nodaf ddau emyn ardderchog: 'Wele wrth y drws yn curo / Iesu, tegwch nef a llawr' (C.Ff.317), a'r clasur' O Iesu croeshoeliedig, Gwaredwr dynol-ryw' (C.Ff. 508). Y mae eraill, ond mae'r ddau yna'n dangos pa mor ddigonol oedd holl-ddigonolrwydd Iesu Grist iddo.

**Perl o'r llwch**

Mae angen codi ambell i berl fel hyn o'r llwch ym mro'r Eisteddfod. Gyda llaw, yn Llaniestyn, yn yr union ffermdy y mae gen i gysylltiadau teuluol ag ef – Rhosgoch – y ganwyd William Lloyd, awdur y dôn gyfarwydd 'Meirionnydd' (C.Ff.71) Felly dowch draw i Foduan. Ardal ydi hi a dweud y gwir, rhwng Pwllheli a Nefyn, er bod yna gapel Presbyteraidd ac Eglwys Anglicanaidd wedi bod yno. Well i mi beidio rhoi cyfarwyddiadau teithio i chi rhag ofn i mi fynd yn groes i gyfarwyddiadau'r Steddfod! CROESO MAWR I'R FRO.



# Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol: Rhosllannerchrugog 2023



*Dyma ran olaf Adroddiad y Parchg Dyfrig Rees yng nghyfarfodydd yr Undeb.*

### Ein sefyllfa

Mae pethau'n bur wahanol ers ymwelodd yr Undeb â Rhosllannerchrugog, ddiwethaf 50 mlynedd yn ôl. Roedd ar lyfrau'r Undeb y flwyddyn honno 751 o eglwysi gydag aelodaeth o 82,295 a 238 o weinidogion. Heddiw, gwelir 341 o eglwysi gydag aelodaeth o 14,982 a 50 o weinidogion. Mewn cwta ddwy genhedlaeth collwyd 55% o eglwysi, 82% o'r aelodaeth a 79% o weinidogion. Nid cysur yw datgan bod y ffigurau olaf hyn yn debygol o ostwng yn sylweddol eto dros y blynyddoedd nesaf.

### Newid a dirywiad

Yr hyn nad yw'n cael ei amlygu yn y ffigurau hyn yw'r newid sylweddol fu hefyd yn natur bywyd a gwaith yr eglwysi. Cywirach nodi nad newid a welsom ond dirywiad. A digwyddodd hynny am i ni ildio'n hunain i'r dybiaeth bod ein dydd fel eglwysi yn prysur ddirwyn i'w derfyn, buom fyw fel pobl yn disgwyl eu tranc a'u diwedd. Un nod sydd i feddylfryd felly, goroesi, dal ati gymaint fyth ag y gallwn ni.

### Pwrpas elusen

Mae'n werth nodi cyngor ein cyfreithiwr i un eglwys yn ddiweddar, 'It is not the purpose of the charity to achieve the position of last man standing.' Nid yw cadw i fynd ynddo'i hunan yn rhinwedd. Cadw i fynd i beth, yw'r cwestiwn. 'The purpose of the charity is for the worship of God through the medium of Welsh in the congregational tradition, not chapel maintenance.'

### Trysor oesol

Cyn fy mod i'n eich arwain i gors o anobaith gaf i brysuro i nodi un elfen o gyfarfodydd blynyddol y Rhos 1973, sy'n drysor oesol. Byddai'r rhai a fyddai wedi bod yn bresennol yma 50 mlynedd yn ôl, yn gwrando ar y Prifathro Pennar Davies yn traddodi ei anerchiad o gadair yr Undeb, 'Y Pethau Nid Ydynt'. (I Cor. 1.) Chwedl Pennar am y bennod hon, 'un o'r darnau yn llythyrau Paul a afaelodd yn ddiollwng yn nychymyg llawer ohonom ... lle mae'n sôn am y gwahaniaeth rhwng gallu Duw a gallu dynion, rhwng doethineb Duw a doethineb dynion.' Rwy'n mentro bod yn broffwydol nawr, wrth ddweud ein bod yn barotach, yn aeddfetach nag y buom ni erioed i gydnabod ein cyflwr ac i wynebu'r ffaith nad oes parhad i'n strwythurau a'n trefniadaeth bresennol. Er pob ymdrech deg i'w cynnal a'u cadw, methu yw'n hanes ni.

### Dinasyddion Ei Deyrnas

A oes ymwared i ni? Oes, meddai Pennar, yn Nuw, y Duw byw. Ynddo ef yn unig y gallwn ni fentro ystyried sut rai ydym ni: ffôl, gwan, distadl, a dirmygedig yng ngolwg y byd, ond yn rhai, er gwaethaf hynny i gyd, a alwyd gan Dduw i fod yn ddinasyddion ei deyrnas. Yn ei gyfrol, *Jesus: A Revolutionary Biography*, mae gan John Dominic Crossan bennod sy'n dwyn y teitl awgrymog, 'A Kingdom of Nuisances and Nobodies', pobl, 'y pethau nid ydynt,' sy'n ymwrthod â byd nad yw'n byw yng ngoleuni bywyd Iesu ac yng ngrym ei gariad, ffynhonnell bywyd yr holl greadigaeth. Gall y dydd hwn o freuder yn ein hanes fod yn ddydd o ymglywed o'r newydd â galwad Duw, ac os digwydd hynny mae'n argoeli bod yn foment fawr yn ein hanes, fel eglwysi, dynoliaeth a byd, oblegid pan fo amser Duw yn cael ei gyflawni, 'try'n gyfrwng i greu, yn gyfrwng i achub.' Beth yw grym y foment hon? Meddai Pennar, 'amhosibl inni amgyffred buddugoliaeth y pethau nid ydynt heb gydnabod gwyrth, gwyrth bywyd, gwyrth anhraethol y Duw byw, gwyrth atgyfodiad.' Dyfynna Jurgen Moltmann, mae'r atgyfodiad yn gwneud y byd yn 'fyd o bosibiliadau.' Beth sy'n bosibl? A gaf i gyfeirio at dri pherson ddaeth yn hysbys i mi ar lwyfan Cymanfa Cyngor Eglwysi'r Byd y llynedd sy'n byw a gweithio i orseddu 'y pethau nid ydynt.'

### Argyfwng y Sami

Mae Julia Rensberg o Eglwys Sweden yn aelod o Gyngor Pobl y Sami o fewn i'r eglwys honno. Yn un o frodorion cynhenid Sgandinafia, tystiodd i'r anghyfiawnder a brofwyd ganddynt yn wyneb polisïau annynol cynifer o wladwriaethau, di-hid o fuddiannau pobloedd leiafrifol, fregus a gwan. Pobl fu'n byw mewn cytgord â'u hamgylchfyd erioed yw'r Sami, yn ymwybodol o'u lle ym mhatrwm a rhythmau bywyd arfordir yr Arctig, ardal sy'n wynebu effeithiau newid hinsawdd ar raddfa frawychus. Â hwythau dan warchae o sawl cyfeiriad buont yn tynnu sylw'r gwledydd at eu hargyfwng hwythau fel pobl ac yn wir, at yr argyfwng hinsawdd sy'n fygythiad i fywyd y byd. Cri gweiniaid ydyw, a neges nad oedd gan y cryfion unrhyw ddymuniad i'w chlywed. Yr oedd rhyw arwyddocâd arbennig yn y ffaith i Julia Rensberg ymddangos ar lwyfan y gymanfa yn ei gwisg frodorol oherwydd iddi hi ac i'w phobl, ac i ninnau siŵr, y mae a wnelo teyrnas Dduw â bywyd yn ei holl gyflawnder a'r un yw'r alwad am gyfiawnder hinsawdd a chyfiawnder hiliol.

### Cais am gân o Giwba

Aelod o'r Eglwys Bresbyteraidd Ddiwygiedig yng Nghiwba yw Edelberto Juan Valdes Fleites. 'Rho gân i mi Gymru,' meddai, gan fwmian y dôn 'Calon Lân', y clywodd ef Only Men Aloud yn ei chanu yn rhywle. Soniodd wrth y cwmni am natur y cyhoeddiadau yn ei eglwys. 'Peth bach i ni,' meddai, 'yw sôn am ddigwyddiadau'r wythnos, y peth mawr yw'r cyfle a gawn ni i rannu â'n gilydd yr adnoddau prin sydd gennym. Daw rhywrai i'r oedfa yn eu hangen am feddyginiaeth, am fwyd a dillad, ac fe ddaw eraill â'r ychydig nwyddau sbâr sydd ganddynt i'w hestyn i eraill. Fel yna ry'n ni'n dygymod â bywyd sy'n anodd a thrafferthus ar brydiau i gynifer ohonom yng Nghiwba ond gyda'n gilydd, yn un teulu yn Iesu, llwyddwn i oresgyn yr anawsterau, gan ddod yn fwy na choncwerwyr trwy'r hwn a'n carodd ni.

### Dysgu yn y carchar

Soniais eisoes am y diweddar Dr Agnes Abuom, cyn-lywydd Cyngor Eglwysi'r Byd. Bu rhaid iddi adael Kenya ganol y saith degau ar gyfrif ei gweithgaredd gwleidyddol. Pan ddychwelodd yno yn 1989 fe'i carcharwyd am wrthwynebu polisïau'r Arlywydd Daniel Arap Moi. Dengys ei hatebion i gwestiwn a ofynnwyd iddi mewn cyfweliad yn 2021, ynghylch yr hyn a ddysgodd yn ystod ei charchariad ruddin ei chymeriad a dyfnder ei ffydd. 'Yn gyntaf,' meddai, 'bod y rhai sy'n eich dad-ddyneiddio, mewn gwirionedd yn dad-ddyneiddio eu hunain. Yn ail, pan fyddwch yn mynd i frwydr, ac wedi eich galw i weinidogaeth a gwasanaeth, rhaid i chi ddisgwyl treialon hyd at farwolaeth. Yn olaf, dysgais, hyd yn oed yn y carchar, fod gan Dduw ddynion a merched yno a oedd yn drugarog.'

Beth a ddywedwn?

O doed dy deyrnas drwy ein gwaith
a'n gweddi beunydd ar y daith
A rho in ras i seinio clod
yr hwn a wna i'r Deyrnas ddod.

Yr Adran Gydenwadol

AWST 3 2023 RHIF 127/128

# Yr Eisteddfod Genedlaethol – gweithgareddau'r eglwysi a mudiadau crefyddol

**Ymhen ychydig ddyddiau bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn agor ei maes i'r cyhoedd ar gyfer wythnos o gystadlu brwd a chyfleoedd niferus i fwynhau a gwerthfawrogi perfformiadau gan ddoniau amlycaf Cymru. Bydd tystiolaeth yr eglwysi hefyd yn rhan o'r arlwy, ac yma mae Aled Davies yn crynhoi'r hyn fydd yn digwydd dros gyfnod yr Eisteddfod yn Llŷn ac Eifionydd rhwng 5 a 12 Awst eleni.**

Ar drothwy wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, pleser pur yw cael eich croesawu i'n cornel bach ni o Gymru yma yn Llŷn ac Eifionydd. Cynhelir y Brifwyl ar gaeau Bodfael ym mhentref Boduan, rhwng Pwllheli a Nefyn. Mae 'na fwrlwm rhyfeddol yn y fro ers wythnosau bellach, a'r pentrefi wedi bod yn brysur yn 'harddu' yr ardal â'u bynting, â sawl draig goch ac ambell archdderwydd (gan gynnwys un go iawn). Ac mae arwyddion 'Croeso' mawr ar ochr y ffordd i'ch cyfeirio'n ddiogel i ben eich taith.

Mae'r gwaith hefyd yn mynd rhagddo o drefnu pabell yr eglwysi o dan nawdd Cytûn ar faes yr Eisteddfod. Pabell yr eglwysi yw hi wrth gwrs, gan mai tystiolaeth Gristnogol yr eglwysi lleol sy'n cyfri. Bydd dros 200 o wirfoddolwyr o blith yr eglwysi hynny'n rhan o'r ymdrech i groesawu pobl i'r stondin. Rhannwyd dalgylch y Steddfod yn wyth ardal: Pwllheli; Botwnnog ac ardal Llŷn; ardal Chwilog a chanol Eifionydd; Cricieth a'r fro; Porthmadog a'r fro; cylch Caernarfon a Nantlle; cylch Bangor; ac ardal Bro'r Wyddfa.

Fe fyddwn ni yno rhwng 9 o'r gloch y bore a 6 o'r gloch yr hwyr dros gyfnod o wyth diwrnod i groesawu a chynnig lletygarwch: cadair i orffwys a chyfle am sgwrs ddifyr, paned o de neu goffi (neu ddiod oren), heb anghofio'r 'Welsh cecs' cwbl hanfodol. Fel arfer, bydd 5,000 ohonyn nhw sy'n cael eu bwyta o fewn y stondin mewn wythnos. A ddim jest fi sy'n eu bwyta nhw! Fe ddaw miloedd i mewn i'r babell i dderbyn o groeso'r eglwysi. Mae'n fraint bob blwyddyn cael croesawu pawb atom, yn bobl o bob ffydd neu heb ffydd – yr un fydd y croeso i bawb. A chofiwch, os byddwch chi'n dod i gyfeiriad Boduan, galwch mewn! Rydyn ni'n barod i'ch croesawu am sgwrs a phaned; bydd cyfle i brynu llyfr neu ddau – a rhaglen lawn o weithgareddau i bob oed.




## Gwaith plant

Ar gyfer y plant, fe fydd cornel yn llawn gweithgareddau. Bydd cyfle i adeiladu model Lego, â gwobr bob dydd o Feibl lliw i'r sawl fydd yn creu'r model gorau. Hefyd, bydd cyfle i wneud bathodyn, chwarae gemau fel Jenga, Knex, Connect 4 a model o Arch Noa. I'r rhai sy'n hoffi gwneud pethau mwy creadigol, bydd cyfle i wneud breichled, gwaith crefft a pheintio ffenestr liw, yn ogystal â gweithgareddau dyngarol dan ofal Cymorth Cristnogol, gan gynnwys gweithgaredd tynnu lluniau 'Bingo Byd-eang' â gwobrau i deuluoedd a phobl ifanc.

## Yr enwadau a'r mudiadau

Mae'r stondin yn cynrychioli'r holl enwadau dan ymbarél Cytûn, yn ogystal â mudiadau fel Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Beibl a'r Cyngor Ysgolion Sul, a fydd yno i gyfarfod pobl er mwyn rhannu am eu mentrau a'u cenadaethau diweddaraf. Bydd cynrychiolwyr o'r enwadau'n galw i mewn, yn Ysgrifenyddion Cyffredinol, Llywyddion a gwirfoddolwyr o'r eglwysi lleol, yn barod am sgwrs dros baned.

Bydd Cymorth Cristnogol yno i rannu am sawl project yn ymwneud â gofalu am y greadigaeth ac effeithiau niweidiol newid hinsawdd, gan gynnwys ymgyrch arwyddo cerdyn 'Deffrwch! neu fydd 'na ddim coffi!' yng nghwmni'r artist Ffion Roberts-Drakley. Bydd sesiynau blasu coffi hefyd ar y stondin yn ddyddiol. Bydd Sian Wyn Rees o Gymdeithas y Beibl yno i sôn am Agor y Llyfr ar ei newydd wedd a'r ffaith fod Byd Mary Jones bellach wedi ailagor i'r cyhoedd, ac i sôn am gynlluniau diweddaraf y Gymdeithas.

Amcan y Cyngor Ysgolion Sul yn ystod yr wythnos fydd cynnal sgyrsiau efo arweinwyr lleol dros Gymru er mwyn trafod gwaith cenhadol i blant, a sefydlu gweithgarwch newydd lle mae ysgolion Sul wedi darfod erbyn hyn. Yn ôl yr arfer bydd dewis eang o lyfrau ac adnoddau, heb anghofio'r cardiau Nadolig newydd fydd ar werth gydol yr wythnos.

## Addoli

Bob dydd (heblaw dydd Sul) cynhelir oedfa yn y babell am 11 o'r gloch. Bydd yr oedfaon hyn yng ngofal arweinwyr ac eglwysi o ardaloedd penodol o fewn dalgylch yr Eisteddfod.

Bore Sul, 6 Awst, am 10 o'r gloch, cynhelir oedfa ym Mhafiliwn y Steddfod; ei thema fydd 'Pererindod'. Noder y bydd angen tocyn mynediad i'r maes arnoch, a bydd hynny'n caniatáu i chi fynd i'r pafiliwn ar gyfer yr oedfa ac aros ar y maes tan 10.30 y noson honno, os dymunwch. Bydd yr oedfa yng ngofal nifer o bobl y fro, dan arweiniad yr Archesgob Andrew John a'r Parch. Anna Jane Evans. Cofiwch hefyd am y Gymanfa Ganu yn y pafiliwn y noson honno; bydd angen tocyn arall ar gyfer cael mynediad i'r Gymanfa. Bydd hwn yn gyfle i glywed Côr y Gymanfa o dan arweiniad Pat Jones.

Bydd Crynwyr Cymru yn cynnal cwrdd addoli ar faes yr Eisteddfod, a hynny yn yr awyr agored ger Cylch yr Orsedd am 1 o'r gloch dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener, a bydd yn para chwarter awr.

Nos Lun, 7 Awst, am 6 o'r gloch, cynhelir gwylnos dan nawdd Cymorth Cristnogol ym mhabell yr eglwysi dan arweiniad yr Archesgob Andrew John ac eraill. Bydd derbyniad a lluniaeth ysgafn i ddilyn – ac mae croeso i bawb.

Nos Iau, 10 Awst, bydd y Cylch Catholig yn falch o'ch croesawu i Offeren y Steddfod, a hynny yn Eglwys Sant Joseff ym Mhwllheli am 7 o'r gloch, gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn.

Nos Wener, 11 Awst, am 6 o'r gloch cynhelir Gwasanaeth y Cymun Bendigaid ar Gân dan arweiniad Côr y Gadeirlan yn Eglwys Sant Pedr ym Mhwllheli.

Yn ystod yr wythnos cawn ambell ddatganiad ar y piano gan Meilyr Tomos, a fydd hefyd yn gwethu ei CD o emynau, a'r holl elw at waith Cymorth Cristnogol.

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Yr Eisteddfod Genedlaethol – gweithgareddau'r eglwysi a mudiadau crefyddol*
*(parhad o dudalen 1)*

## Lansiadau


Bydd nifer o lyfrau yn cael eu lansio yn y Steddfod, rhai ohonynt ar stondin pabell yr eglwysi.


**Dydd Mawrth, 8 Awst, am 11.30 o'r gloch**
Lansio'r rhifyn cyfredol o *Gair y Dydd*, a chyfle i glywed myfyrdod y dydd yn cael ei ddarllen gan y cyfrannwr, sef Christopher Prew. Bydd *Gair y Dydd* ar werth yn y stondin, a chyfle i danysgrifio i'r cyhoeddiad hefyd.




**Dydd Mawrth, 8 Awst, am 2 o'r gloch**
Lansiad *'73'*, ffilm newydd o waith Gwyn Rhydderch sy'n olrhain hanes Duw ar waith mewn ffordd arbennig yn Llŷn ac Eifionydd ymhlith pobl ifanc yn ystod 1973. Nage, nid cyfarfod i griw o bobl yn eu saithdegau ydi hwn (er ei bod yn wir fod nifer o'r cyfranwyr yn eu saithdegau neu'n nesu at oed yr addewid!). Cyfle i glywed am waith Duw ym mywydau nifer helaeth o'r bobl ifanc oedd yn y colegau yn ystod saithdegau'r ganrif ddiwethaf yw hwn. Y gobaith yw y bydd cael ein hatgoffa o rodd ryfeddol Duw i Gymru yn ystod y cyfnod byr yma'n ein hysbrydoli a'n llawenhau o'r newydd.


**Dydd Mercher, 9 Awst, am 11.30 o'r gloch**
Dathlu cyhoeddi *Cysuro'r Claf – ysbrydoledd mewn ysbyty*, yng nghwmni'r awdur, y Parch. Eric Jones, Bangor; Dr John Williams, Lerpwl; a'r Parch. Athro John Tudno Williams yn llywyddu. O ble daeth yr ysbrydoliaeth i sefydlu ysbytai? A oes ystyr i'r ymadrodd, 'Dwi'n ysbrydol ond nid yn grefyddol'? Pa wahaniaeth a wna atgyfodiad y Crist croeshoeliedig i obaith y claf? Beth yw natur gofal ysbrydol yn ein hysbytai, yng nghyd-destun pobl o aml ffydd a phobl wrth grefyddol? Mae'r gyfrol fach hon yn cynnig atebion i gwestiynau mawr. Cyhoeddir gan Wasg y Bwthyn, a bydd ar werth yn y stondin.





**Dydd Iau, 10 Awst, am 11.30 o'r gloch**
Lansiad *Ffenestri Gobaith*, cyfrol o farddoniaeth Gristnogol o waith y bardd John Emyr. Bydd y gyfrol ar werth yn y stondin am £7.99. Cyhoeddir gan Gyhoeddiadau'r Gair.


**Dydd Iau, 10 Awst, am 11.30 o'r gloch**
Lansiad *Liliau Tân*, addasiad Arfon Jones o hunangofiant Dr Rhiannon Lloyd am ei hamser yn gweithio yn Rwanda. Bydd y gyfrol ar werth yn y stondin am £11.99. Cyhoeddir gan Gyhoeddiadau'r Gair.




**Dydd Gwener, 11 Awst, am 1.45 o'r gloch**
Lansio *Gwasanaethu'r Duw Byw*, cyfrol ar stiwardiaeth Gristnogol o waith Dafydd Andrew Jones. Cyhoeddir gan Gyhoeddiadau'r Gair.

**Dydd Gwener, 11 Awst, am 3 o'r gloch**
Lansio *Gofal ein Gwinllan: ysgrifau ar gyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i'n llên a'n hanes a'n diwylliant* (gol.: A. Cynfael Lake a D. Densil Morgan) gan yr Eglwys yng Nghymru ym mhabell y Cymdeithasau 1. Y siaradwyr yno fydd yr Athro E. Wyn James, y Parchedicaf Andrew John, yr Athro D. Densil Morgan a Dr Eryn White. Croeso cynnes i bawb.




## Ymgyrchoedd ac apeliadau

**Dydd Mawrth, 8 Awst, am 11.45 o'r gloch**
Y Parch. Judith Morris o Undeb Bedyddwyr Cymru yn lansio'u hapêl enwadol at waith Cymorth Cristnogol.

**Dydd Mercher, 9 Awst, am 2 o'r gloch**
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn lansio'u hapêl Cymorth Cristnogol i gefnogi gwaith yn Colombia.

**Dydd Mercher, 9 Awst, am 3 o'r gloch**
Sesiwn dan ofal Cheryl Williams i ddiolch am gyfraniad Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn dilyn eu hapêl 'Hadau Gobaith'; casglwyd £150,000 at waith Cymorth Cristnogol.

## Sesiynau a sgyrsiau

**Dydd Sadwrn, 5 Awst, am 12.30 o'r gloch**
Darlith flynyddol Fforwm Hanes Cymru: 'Capel Newydd Nanhoron ac Anghydffurfiaeth Gynnar Llŷn ac Eifionydd' gan John Dilwyn Williams. Pabell y Cymdeithasau 1.

**Dydd Llun, 7 Awst, am 11.30 o'r gloch**
Cyflwyniad gan Rebecca Elliot o Gymorth Cristnogol ar adnoddau 'Cymdogion Byd-eang' a fydd ar gael ym mis Medi.

**Dydd Llun, 7 Awst, am 2 o'r gloch**
Cyflwyniad ar yr 'Ymgyrch Colled a Difrod' gan y Parch. Andrew Sully yn dilyn ei daith feics ddiweddar o Gaergybi i Gaerdydd ar ran Cymorth Cristnogol.

**Dydd Llun, 7 Awst, am 5 o'r gloch**
'Llwyd ar y Du a'r Gwyn', darlith gan Alan Llwyd ar hanes Robert ap Gwilym Ddu a Dewi Wyn o Eifion ym mhabell y Cymdeithasau 1. Dau amaethwr, dau gymydog, dau fardd, athro a disgybl; ond o'r ddau fardd, un yn fardd aneisteddfodol a'r llall yn fardd eisteddfodol – y ddeufardd o Eifionydd. Trefnir y ddarlith hon gan Utgorn Cymru.



**Dydd Mawrth, 8 Awst, am 10.30 o'r gloch**
Darlith Flynyddol Adran Diwinyddiaeth Graddedigion Prifysgol Cymru, gan y Parch. Ddr Rosa Hunt, Cyd-brifathro Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, yn neuadd y

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Yr Eisteddfod Genedlaethol – gweithgareddau'r eglwysi a mudiadau crefyddol*
*(parhad o dudalen 1)*

Cymdeithasau 2. Ei thestun fydd: '"Pobl ddieithr eu hiaith ac anodd eu lleferydd"? – cyfieithu, cymuned a chrefydd'. Darlith am y berthynas gymhleth rhwng iaith, cymuned a ffydd. Dadleuir dros ddwy dybiaeth sylfaenol: yn gyntaf, nad ydy'r ffydd Gristnogol yn bodoli heb iddi gael ei chyfieithu, ac yn ail, nad ydy hi'n bosibl cyhoeddi'r neges Gristnogol yn ffyddlon heb ei chyfieithu i idiom naturiol y diwylliant lleol.

**Dydd Mercher, 9 Awst, am 10.30 o'r gloch**
'Pedr Fardd, pwy awdwr fu, Mwy anwyl am emynu?' Dawi Griffiths yn trafod bywyd a gwaith yr emynydd Pedr Fardd (1775–1845). Darlith flynyddol Cymdeithas Emynau Cymru yn neuadd y Cymdeithasau 2.

**Dydd Mercher, 9 Awst, am 12 o'r gloch**
Sesiwn o dan gadeiryddiaeth Siôn Brynach ar ran Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn dwyn y teitl 'Heriau codi arian i'r trydydd sector yng Nghymru'.



**Nos Fercher, 9 Awst, am 7 o'r gloch**
Darlith goffa yn Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr, er cof am y Parch. J. Lloyd Jones dan y teitl 'Dringo'r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru?' Y darlithydd fydd y Parch. Siôn Brynach, Prif Weithredwr Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru. Mae croeso i bawb i'r ddarlith arbennig hon.

**Dydd Iau, 10 Awst, am 2 o'r gloch**
Perfformiad o ddetholiad o ganeuon gan Gôr Cofnod o Gaernarfon. Croeso i bawb.

**Dydd Iau, 10 Awst, am 4 o'r gloch**
Darlith gan y Parch. Aled Edwards, 'Cyfraniad y Parch. Griffith Thomas Roberts, Congl y Meinciau', ym mhabell y Cymdeithasau 1. Dan nawdd Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru

**Nos Iau, 10 Awst, am 7.30 o'r gloch**
Darlith gan John Aaron yn Festri Capel Penlan, Pwllheli, ar fywyd a gwaith y Parch. John Elias (1774–1841). "Ni fu ffigwr cenedlaethol a mwy o arwr-addoli arno ar y naill law ac o gamliwio rhagfarnllyd ar y llall, na John Elias o Fôn." Darlith i'n hatgoffa o wir fawredd John Elias fel pregethwr, ac edrych ar rai o'r rhesymau paham y bu cymaint o ddilorni arno.

**Dydd Gwener, 11 Awst, am 10 o'r gloch**
'Addoldai mwyaf nodedig Cymru?' Darlith Addoldai Cymru / Capel gan Dr Tanya Jenkins ym mhabell y Cymdeithasau 1.

**Dydd Gwener, 11 Awst, am 2 o'r gloch**
Sgwrs gan Siôn Brynach am waith Cytûn.

**Dydd Gwener, 11 Awst, am 2 o'r gloch**
Pryderi Llwyd Jones ar ran Cristnogaeth21 yn hwyluso sgwrs rhwng Aled Jones Williams a Cynog Dafis dan y teitl 'duw, Pantycelyn a Dyfodol Crefydd'. Trafodir dwy gyfrol: *Cerddaf o'r Hen Fapiau* gan Aled a *Pantycelyn a'n Picil Ni Heddiw* gan Cynog. Cynhelir ar stondin y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Dydd Gwener, 11 Awst, am 3 o'r gloch**
Côr y Gadeirlan yn cyflwyno detholiad o'u gwaith. Croeso cynnes i bawb ymuno.

**Dydd Sadwrn, 12 Awst, am 11 o'r gloch**
'O William Salesbury i William Morgan: y Dadeni yn Nyffryn Conwy?' Sesiwn yng nghwmni Gruffudd Antur, Peredur Lynch ac Eryl Owain. Cynhelir dan nawdd Tŷ Mawr Wybrnant, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ym mhabell y Cymdeithasau 1.

**Dydd Sadwrn, 12 Awst, am 2 o'r gloch**
Sesiwn dan ofal Awel Irene a chriw Heddwch Nain / Mam-gu. Gan mlynedd yn ôl, anfonodd 390,296 o fenywod Cymru ddeiseb at fenywod Unol Daleithiau America i roi pwysau ar eu llywodraeth i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd. Eleni mae'r gist sy'n dal yr holl llofnodion wedi ei dychwelyd i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Dyma ddechrau prosiect blwyddyn: inni olrhain hanes ein neiniau, dathlu eu gweithredoedd a chyfrannu at wireddu eu breuddwyd i greu byd mwy heddychlon a chyfiawn.



## Llwybr a phererindod Cadfan

Dan nawdd Esgobaeth Bangor, bydd llawer o sesiynau'n ymwneud â Sant Cadfan a llwybr pererindod y de o Dywyn, Meirionnydd, i Ynys Enlli, yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos. Cofiwch alw i mewn ym mhabell Pererin, drws nesaf i babell yr eglwysi ar y maes. Yno bydd mapiau cerdded, nwyddau ac arddangosfa o hanes rhyfeddol y sant ac eglwysi'r llwybr ynghyd â gweithgareddau i bob oed.

Sant Cadfan, 'Mewn Cymeriad' – dydd Sul, 6 Awst, am 3 o'r gloch; dydd Mawrth, 8 Awst, am 1.30 o'r gloch; dydd Iau, 10 Awst, am 3 o'r gloch; dydd Sadwrn, 12 Awst, am 3 o'r gloch. Yr actor Llion Williams sy'n portreadu Cadfan Sant ar ei bererindod gyntaf i Ynys Enlli o Dywyn. Cewch hanes y Llydawr o'r chweched ganrif ar ei daith i ynys yr ugain mil o saint.

**Dydd Mawrth, 8 Awst, am 12 o'r gloch**
'Pererindod Cadfan' – Siôn Aled, Sian Northey, Twm Morys, Gwyneth Glyn, ynghyd â beirdd gwadd eraill yn arwain pererindod hwyliog o amgylch y maes. Bydd yr eitemau cerddorol a llenyddol yn deillio o waith y prosiect llenyddol Llwybr Cadfan ac yn cael eu perfformio mewn lleoliadau gwahanol. Bydd y bererindod yn cychwyn gerllaw cerrig yr Orsedd ac yn gorffen ym mhabell Pererin, lle bydd cyfle i gyfarfod Cadfan Sant ei hun (ar ffurf yr actor Llion Williams), a'i weld yn cyflwyno monolog! Orig hwyliog fydd yn rhoi blas ar holl waith a naws y prosiect.




**Dydd Mercher, 9 Awst, am 1 o'r gloch**
'Llwybr Cadfan – dathliad mewn barddoniaeth a chân' ym mhabell y Cymdeithasau 1. Siôn Aled a Sian Northey, Twm Morys a Gwyneth Glyn yn ein harwain drwy gyfrwng cerddoriaeth a barddoniaeth ar daith ar hyd Llwybr Cadfan.

## Taith dywys

**Dydd Mawrth, 8 Awst, 10 o'r gloch; 11 o'r gloch; 12 o'r gloch**
Cyfle i ymweld â Chapel Newydd Nanhoron y canodd Cynan amdano fel y 'capel bach gwyngalchog / ym mhellafoedd hen wlad Llŷn'. Er yr enw 'newydd', mae'r capel yn dyddio 'nôl i 1769, ac wedi ei restru'n adeilad Gradd 1. Dyma'r enghraifft hynaf o gapel anghydffurfiol yng ngogledd Cymru sy'n dal i sefyll.

Taith dywys dan ofal John Dilwyn Williams, cadeirydd yr ymddiriedolaeth. Bydd yn para tua dwy awr, gan gynnwys y teithio 'nôl ac ymlaen o faes yr Eisteddfod. Bydd bws mini'n gadael prif fynedfa maes yr Eisteddfod ac yn eich cludo at ddrws y capel. I archebu lle ar y bws, bydd angen ffonio 01758 721777 ymlaen llaw, gan nodi eich dewis o amser i gychwyn ar y daith.

## Y Gorlan Gristnogol

Yn ôl eu harfer bydd criw o Gristnogion ifanc yn gweithio fel tîm y Gorlan, ac yn cyfarfod â phobl ifanc ar Faes B er mwyn cynnig cymorth ymarferol fel rhannu poteli dŵr a rhoi cyngor addas. Cofiwn amdanynt yn ein gweddïau wrth iddynt weithio oriau hwyrol ymhlith ieuenctid mewn gigs yn y Steddfod.

Bydd digon i'w wneud ar y maes felly, o fore tan nos. Ac os byddwch yn dod i'r ardal am gyfnod estynedig, ag ychydig o amser i grwydro'r fro, bydd gennym erthygl arall yn rhifyn wythnos nesaf o *Cenn@d* gan yr hanesydd John Dilwyn Williams yn ein cyflwyno i rai o lecynnau ysbrydol arbennig y fro, o Ynys Enlli i gapeli hynafol megis Nanhoron a Chapel y Beirdd.

Cofiwch fod rhifyn newydd o *Cenn@d* yn cael ei gyhoeddi bob wythnos ar wefan cennad.cymru, ac ar gael i'w ddarllen a'i lawrlwytho – yn rhad ac am ddim.

# Mannau crefyddol Llŷn ac Eifionydd

**Yn ystod y penwythnos nesaf bydd miloedd o bobl yn heidio i gyfeiriad Llŷn ac Eifionydd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn yr erthygl hon mae'r hanesydd John Dilwyn Williams yn ein cyflwyno i'r rhai o'r mannau cysygredig o fewn yr ardal, yn gapeli, eglwysi a llecynnau ysbrydol arbennig. Gobeithiwn y bydd hyn o ddiddordeb i'r sawl fydd yn ymweld â'r ardal, gan godi awydd ar bobl i fynd i chwilio am y llecynnau Cristnogol hyn.**

## Olion cynnar

O ddyddiau seintiau cynnar y 5ed, y 6ed a'r 7fed ganrif ymlaen mae Cristnogaeth wedi gadael ei hôl yn amlwg ar Lŷn ac Eifionydd. Yng nghyntedd Oriel Plas Glyn-y-weddw yn Llanbedrog gwelir dau faen Cristnogol cynnar, y naill yn coffáu, mewn Lladin, Iwfenal fab Edern ac yn dyddio o'r chweched ganrif, a'r llall o bosib yn hŷn ac yn dyddio o'r 5ed ganrif. Ar hwnnw coffeir *Vendesetli* ('Un o fywyd gwynfydedig'), ffurf gynnar ar yr enw Gwynhoedl, nawddsant eglwys Llangwnnadl yn ddiweddarach. Cawsent eu darganfod tua dechrau'r 1830au wrth chwalu hen fwthyn ar dir fferm Penprys ym mhlwy Llannor, wedi eu hailddefnyddio i ffurfio ochrau bedd hynafol.



Cerrig bedd cynnar yn eglwys Aberdaron

Hefyd diogelir dwy garreg fedd o ddiwedd y 5ed ganrif neu ddechrau'r 6ed ganrif yn eglwys Aberdaron, wedi dod yn wreiddiol o safle a adwaenid fel Capel Anelog ar dir fferm y Gors ar ochr ddwyreiniol Mynydd Anelog ym mhen draw Llŷn. Mae'r arysgrif Ladin arnynt yn tystio i fodolaeth mynwent cymuned o grefyddwyr. Y gair Cymraeg am gymuned felly oedd clas, ac mae'n debyg mai yn Anelog yr oedd rhagflaenydd y clas a oedd ynghlwm ag eglwys Aberdaron yn ddiweddarach. Coffeir *Veracius* Offeiriad ar y naill garreg a *Senacus* Offeiriad gyda llawer o frodyr ar y llall. Mae'n bosib y byddai Ynys Enlli yn encilfa ar gyfer y clas hwn yn Anelog. Dywed traddodiad mai Cadfan, arweinydd cenhadaeth o fynaich a ddaeth drosodd o Lydaw yng nghanol y chweched ganrif, ddechreuodd y sefydliad mynachaidd ar Enlli a ddaeth yn abaty Awstinaidd yn nechrau'r 13eg ganrif, ac y gwelir ei adfeilion yno o hyd.

## Yr eglwysi cynharaf

Eto yn ôl traddodiad, dau o gyd-genhadon Cadfan oedd Hywyn, nawddsant eglwys Aberdaron, a Maelrhys, nawddsant eglwys y plwyf nesaf, Llanfaelrhys. Yn eglwys Aberdaron yn 1094 y cafodd Gruffudd ap Cynan loches rhag erledigaeth y Normaniaid gan gymuned y clas yno a'i rwyfo ganddynt mewn cwch i Iwerddon.



Eglwys Aberdaron

Mae rhan o eglwys Aberdaron, gan gynnwys y fynedfa, yn dyddio o'r 12fed ganrif.

Yn wreiddiol, adeiladau pren fyddai'r oll o'r 37 o eglwysi plwyf a sefydlwyd yn Llŷn ac Eifionydd. Maes o law cawsent eu hail-adeiladu o garreg ac mae nifer ohonynt yn cynnwys adeiladwaith sy'n dyddio'n ôl i'r Oesoedd Canol.



Eglwys Beddgelert

Y mae eglwys Beddgelert, ym mhen eithaf Eifionydd, yn cynnwys elfennau o'r hen briordy yno sy'n dyddio o'r 12fed a'r 13eg ganrif. Gwelir eglwysi trawiadol eraill yn Llanengan, Llaniestyn, Llangwnnadl ac Aber-erch. Yno yn y fynwent y mae bedd bardd y Betws Fawr, Robert ap Gwilym Ddu.



Eglwys Nefyn – Amgueddfa Forwrol Llŷn bellach

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Mannau crefyddol Llŷn ac Eifionydd*
*(parhad o dudalen 1)*

Er bod nifer o eglwysi wedi cau erbyn hyn, diogelwyd rhai Ynyscynhaearn, Penmorfa a Phenllech, sydd ar iard fferm Plas-ym-Mhenllech, gan gymdeithas Cyfeillion Eglwysi Di-gyfaill. Mae Carnguwch a Llandygwnning yng ngofal cymdeithasau lleol, ac mae hen eglwys Nefyn wedi ei throi yn Amgueddfa Forwrol Llŷn. Tŷ preifat yw'r eglwys yn Llanfihangel Bachellaeth, y "lle tawela 'ngwlad Llŷn", chwedl Cynan, ond mae'r olygfa oddi yno yn dal i swyno.

### Dyfodiad Protestaniaeth

Rhaid cofio, wrth gwrs, mai pabyddol fyddai'r eglwysi plwyf hyd at yr 16eg ganrif pan sefydlwyd Eglwys Loegr, a'i chadarnhau fel eglwys y wladwriaeth o 1559 ymlaen. Nid pawb oedd yn fodlon derbyn y grefydd Brotestannaidd newydd, fodd bynnag. Er bod Thomas Owen, sgweier Plas Du, Llanarmon, wedi cydymffurfio am gyfnod, gan iddo gael ei ddewis yn siryf Sir Gaernarfon yn 1568–9, erbyn y 1570au, yn dilyn esgymuno'r frenhines Elizabeth gan y Pab, peidiodd â mynychu'r gwasanaethau yn eglwys Llanarmon. Bu cyfres o ymchwiliadau swyddogol a chyhuddwyd ef o fod yn reciwsant ac o roddi lloches i offeiriaid pabyddol a gohebu'n anghyfreithlon â'i frawd yn Brussels. Y brawd hwnnw oedd Hugh Owen (1538–1618), y cynllwynwr pabyddol a weithredai fel ysbïwr yn erbyn y frenhines Elizabeth a'i holynydd, y brenin James. Credir mai ef a roes arweinwyr Brad y Powdwr Gwn yn 1605 mewn cysylltiad â Guy Fawkes.

Y mae'r Plas Du yn dal i sefyll ond nid felly gartref Robert Gwyn, reciwsant ac awdur mwyaf toreithiog oes Elizabeth I. Mab Penyberth, plwyf Llanbedrog, ydoedd a ddaeth yn babydd dan ddylanwad Robert Owen, un arall o frodyr Plas Du, a'i darbwyllodd i ymuno â'r pabyddion alltud eraill yn Douai yn Fflandrys yn 1571. Ef, mae'n debyg, oedd awdur *Y Drych Cristianogawl*, y llyfr Cymraeg cyntaf i'w gyhoeddi yng Nghymru, a hynny yn y dirgel, yn ogof Rhiwledyn ar Drwyn-y-fuwch, ger Llandudno. Ym 1936 chwalwyd ei gartref ym Mhenyberth gan y Weinyddiaeth Awyr wrth baratoi'r safle ar gyfer yr Ysgol Fomio, ond mae'n eironig mai eglwys babyddol oedd nepell o safle'r hen dŷ pan ddaeth gwersyll Penyberth yn gartref i Bwyliaid alltud ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

### Y Piwritaniaid a'u holynwyr

Yn yr 17eg ganrif daeth mwy o amlygrwydd i'r Piwritaniaid, sef rhai nad oedd yn credu bod newidiadau'r Diwygiad Protestannaidd wedi mynd yn ddigon pell a bod angen 'puro' mwy ar yr eglwys. Gŵr o Sir Drefaldwyn oedd Jeffrey Parry, swyddog ym myddin Cromwell, a ddaeth i Lŷn gan briodi Margaret Hughes o Lanbedrog ac ymgartrefu yn Rhydolion, plwyf Llangïan. Ganed eu mab yn 1658 a'i enwi yn Love-god Parry. Ohono ef y daeth y teulu Parry a ymsefydlodd ym Madryn yn y 18fed ganrif. Arhosodd yr enw Love yn y teulu am sawl cenhedlaeth.

O'r Piwritaniaid y deilliodd yr Annibynwyr a thrwyddynt hwy y daeth Howel Harries ar ei daith gyntaf i Lŷn yn 1741. Ymwelodd â Phenyberth, cartref David Edwards erbyn hynny, a gyhuddwyd o gynnal cwrdd dirgel yn ei dŷ, yn groes i'r rheolau. Roedd rhaid i unrhyw fan addoli gan yr Anghydffurfwyr gael ei gofrestru a'r Gweinidog ei drwyddedu. Yn ôl yn 1689 y trwyddedwyd Daniel Phillips fel gweinidog ymneilltuol cyntaf Llŷn ac Eifionydd ac enwir tri lle ar gyfer pregethu ynddynt: Lôn Dywyll yn Llangïan, tŷ William Thomas ym Mhwllheli a thŷ Ellis Owen yn Llangybi, sef Ynys Helyg. O'r tai ym Mhwllheli a Llangybi y datblygodd capeli Annibynwyr Pen-lan a Chapel Helyg. Codi capel mewn lleoliad newydd a wnaeth y gynulleidfa yn Lôn Dywyll yn 1769, a dyma Gapel Newydd Nanhoron, y capel Anghydffurfiol hynaf sy'n dal i fodoli yng ngogledd Cymru.


Llun gan Eric Jones CC BY-SA 2.0 via Wikimedia Commons

Capel Nanhoron

Er mai mudiad i ddiwygio'r eglwys o'r tu mewn oedd Methodistiaeth ar y cychwyn, buan y troes y seiadau yn gapeli a chafwyd prydles i godi capel ar dir Tŷ Mawr, Bryncroes, yn 1752. Roedd hwnnw dros y ffordd i'r capel presennol, a godwyd yn 1840. Cofnodir bod pregethu ym Mrynengan, 'Jerusalem Sir Gaernarfon' ym mhlwyf Llangybi yn Eifionydd yn 1755 ond yn 1776 y cafwyd les gan y tirfeddiannwr i godi capel yno.


Llun gan Eric Jones CC BY-SA 2.0 via Wikimedia Commons

Capel y Beirdd

Yn y 1780au yr anfonodd y Bedyddwyr genhadaeth i Lŷn ac Eifionydd a daeth Christmas Evans i ofalu am Fedyddwyr Llŷn yn 1789. Ond roedd hi'n 1822 ar un o gapeli enwocaf y Bedyddwyr yn Eifionydd yn cael ei adeiladu, sef Capel y Beirdd. Teitl difenwol oedd hwnnw ar y cychwyn gan fod y ddau fardd, Dewi Wyn o Eifion a Robert ap Gwilym Ddu, yn amlwg gyda'r trafodaethau â'r tirfeddiannwr ynglŷn â chael les ar y tir i godi'r capel.

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 35 Dau dad, a dau unig fab (Rhan 2)

**Darllen: Genesis 22:1–24**
**(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 151)**

Wedi edrych ar yr hanes yr wythnos diwethaf, rwyf am geisio gwneud deubeth y tro hwn: ystyried ein deall Beiblaidd o brofion ffydd ac yna edrych ar ganlyniadau hynny. Mae Iago yn lle da i grynhoi ein dealltwriaeth o'r maes:

'Fy nghyfeillion, cyfrifwch hi'n llawenydd pur pan syrthiwch i amrywiol brofedigaethau, gan wybod fod y prawf ar eich ffydd yn magu dyfalbarhad. A gadewch i ddyfalbarhad gyflawni ei waith, er mwyn ichwi fod yn berffaith a chyflawn, heb fod yn ddiffygiol mewn dim. ... Gwyn ei fyd y sawl sy'n dal ei dir mewn temtasiwn, oherwydd ar ôl iddo fynd trwy'r prawf fe gaiff, yn goron, y bywyd a addawodd yr Arglwydd i'r rhai sydd yn ei garu ef.' (Iago 1:2–4,12)

O ran bwriad Iago, mae'r adnodau'n ein hatgoffa bod y rhai sy'n dymuno ac yn rhoi pris ar aeddfedrwydd ysbrydol yn rhoi pris ar werth dyfalbarhad. Er nad yw amryw o'n profiadau'n dda ynddynt eu hunain, eto mae'n bosibl y bydd canlyniadau da, ac yn wir ganlyniadau rhyfeddol, yn deillio oddi wrthynt. Yn adnod 12 mae Iago yn cyfeirio at ddau beth: dyfalbarhad a choron bywyd. Os nad yw'r goron yn fawr o ddiddordeb i rywun, wel, does fawr o gymhelliad i ddyfalbarhau. Ond os yw ein bryd ar glywed y geiriau 'da, was da a ffyddlon', a chael mynedfa i lawenydd yr Arglwydd am byth, ffolineb o'r mwyaf fyddai peidio â byw ein bywyd gyda golwg ar hynny.

Byddaf yn aml yn rhyfeddu at daith William Wilberforce a'r 'Clapham Sect' yn yr ymgyrch i ddwyn y farchnad gaethwasiaeth i ben. O 1785 hyd 1807 fe gyflwynodd fesur yn y senedd 11 o weithiau, a bob tro byddai'r mesur yn cael ei wrthod. Ond yn 1807 cafwyd pleidlais o 283 o blaid a 16 yn erbyn. Yna, gan mai dim ond gwneud y farchnad yn anghyfreithlon yr oedd y mesur, roedd yn rhaid parhau i sicrhau bod dal caethweision yn anghyfreithlon. Bu wrthi am 26 mlynedd yn sicrhau hynny, ac fe basiwyd y mesur yn 1833, dridiau cyn iddo farw.

Rwy'n nodi hyn yn dilyn darllen dyfyniad o eiddo ffrind iddo, James Stephen, yn dilyn marwolaeth Wilberforce: 'His presence was as fatal to dullness as to immorality. His mirth was as irresistible as the first laughter of childhood.' Yn ei lyfr, *A Practical View of Christianity*, mae Wilberforce yn nodi, 'The path of virtue is that also of real interest and of solid enjoyment … when all around him is dark and stormy, he can lift up an eye to Heaven, radiant with hope and glistening with gratitude'. Roedd wedi dysgu wynebu treialon gan eu cyfrif 'yn llawenydd pur', a golwg ar y 'goron a addawodd yr Arglwydd i'r rhai sy'n ei garu' yn sicrhau ei ddyfalbarhad.

Nid Iago yn unig sy'n mynd i'r afael â chwestiwn profion yn y bywyd Cristnogol. Yn 1 Pedr 1 mae Pedr yn cyfeirio at y blinderau yng nghyd-destun etifeddiaeth sicr y Cristion gan ddisgrifio ein profedigaethau fel moddion bendith: 'Y mae hyn wedi digwydd er mwyn i ddilysrwydd eich ffydd chwi, sy'n fwy gwerthfawr na'r aur sy'n darfod — ac y mae hwnnw'n cael ei brofi trwy dân — gael ei amlygu er mawl a gogoniant ac anrhydedd pan ddatguddir Iesu Grist' (1 Pedr 1:7). Drwy'r cyfan, i'r rhai sy'n ymddiried, fel Abraham, fe ddywed Paul, 'Y mae Duw'n ffyddlon, ac ni fydd ef yn gadael ichwi gael eich profi y tu hwnt i'ch gallu; yn wir, gyda'r prawf, fe rydd ef ddihangfa hefyd, a'ch galluogi i ymgynnal dano.' (1 Corinthiaid 10:13)

Daw hyn â ni yn daclus yn ôl at yr hanes yn Genesis 22. Sylwch ar yr hyn y mae Abraham yn galw'r lle yn adnod 14, Jehofajireh, 'yr Arglwydd sy'n darparu'. Mi fyddai wedi medru cyfeirio at y lle fel man y waredigaeth, man y prawf. I'r gwrthwyneb, dyma lle y sylweddolodd fod yr hyn a ddywedodd wrth Isaac, 'Duw ei hun fydd yn darparu oen y poethoffrwm, fy mab' yn cael ei wireddu i raddau wrth weld yr hwrdd yn y llwyn, ond byddai darpariaeth gyflawn ar y mynydd hwn ymhen hir a hwyr. Dyma'r ddarpariaeth y cyfeirir ati yn Rhufeiniaid 8:32, 'Nid arbedodd Duw ei Fab ei hun, ond ei draddodi i farwolaeth trosom ni oll'. Hon oedd y ddarpariaeth yr oedd Ioan yn tystio iddi ar ddechrau gweinidogaeth Iesu, 'Trannoeth gwelodd Iesu'n dod tuag ato, a dywedodd, "Dyma Oen Duw, sy'n cymryd ymaith bechod y byd!"' (Ioan 1:29)

Wrth inni edrych yn ôl, heibio Calfaria, nid peth amhriodol yw meddwl bod Abraham wedi meddwl: does dim raid i mi roi fy mab er mwyn Duw; mae Duw yn rhoi ei Fab er fy mwyn i.

Canlyniad yr ymddiriedaeth a arweiniodd at yr ufudd-dod hwn oedd fod Abraham yn derbyn cadarnhad pellach o'r addewid: 'bendithiaf di yn fawr, ac amlhau dy ddisgynyddion yn ddirfawr, fel sêr y nefoedd ac fel y tywod ar lan y môr. Bydd dy ddisgynyddion yn meddiannu pyrth eu gelynion, a thrwyddynt bendithir holl genhedloedd y ddaear, am iti ufuddhau i'm llais.' (adn. 17) Er yn cydnabod fod sicrwydd fydd yn rhywbeth sy'n ddieithr i lawer, eto, fe ddylai ein hyder yn y gwaith gorffenedig drosom a'r arwyddion gweladwy o'r ffydd honno mewn bywyd o ufudd-dod ddod â'r Cristion i fan lle mae'n edrych yn hyderus at y 'goron a addawodd yr Arglwydd'.

1. Ystyriwch y pennill hwn o un o emynau Gomer ochr yn ochr ag 1 Corinthiaid 10:13:

   Yn y cyfyngderau mwyaf
   pwysa f'enaid ar dy Dduw,
   disgwyl wrth Jehofa Jireh,
   ceidwad grasol dynol ryw ;
   fe a'th geidw
   rhag dy ofnau fawr a mân.

2. Rydym wedi meddwl am lawenydd Wilberforce wrth iddo wynebu gwrthwynebiad ac anawsterau am flynyddoedd. Sut fyddwch chi'n diogelu eich bod yn ei chyfrif 'hi'n llawenydd pur pan syrthiwch i amrywiol brofedigaethau, gan wybod fod y prawf ar eich ffydd yn magu dyfalbarhad'?
3. Er nad ystyriwyd hyn yn yr astudiaeth, i ba raddau mae parodrwydd Isaac i orwedd ar yr allor yn gysgod o'r hyn mae Eseia yn 53:7 yn ei broffwydo am Iesu: 'arweiniwyd ef fel oen i'r lladdfa, ac fel y bydd dafad yn ddistaw yn llaw'r cneifiwr, felly nid agorai yntau ei enau'?

S4C

**Sul, 6 Awst – Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2023**
*Oedfa'r Bore am 10 yb*
Pat Jones sy'n arwain yr emynau o Bafiliwn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd
*Y Gymanfa Ganu am 8 yh*
Cymanfa Ganu Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd yn fyw o faes y Brifwyl, Boduan

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 6 Awst, am 7:30yb a 12yp**
Emynau ein prifeirdd: rhaglen 3
R. Alun Evans yn bwrw golwg ar ragor o emynau gan rai o'n prifeirdd

**Sul, 6 Awst, am 1yp**
Oedfa agoriadol Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023

# Barn Annibynnol

## Rhaid bod yn grac!

Wy'n sôn yn aml wrth bobl fy mod i'n grac - am gymaint o bethe. Ac wy'n dwlu ar y gair deheuol 'crac' gyda llaw, i mi mae'n cyfleu mwy na'i ystyr, mae'r sŵn yn awgrymu rhywbeth chwyrn, neu rywbeth sy'n torri ... fy amynedd efallai? Mae'r gair 'candryll' (sef ffurf gysefin 'gandryll') yn gwneud rhywbeth reit debyg yn y gogledd. Ond dewch 'nôl at y teimlad o fod yn grac. Pam? Dyw e'n newid dim pripsyn o ddim, nagyw? Yn y bregeth ar y mynydd, mae Iesu'n dweud wrthon ni i beidio â gwastraffu'n hegni ar boeni, na fydd hynny'n ychwanegu'r un fodfedd at ein taldra ni, sy'n beth hynod gall a hirben i'w ddweud. Oni ddylen ni dderbyn rhai pethau felly, a gadael iddyn nhw i ddigwydd, gan roi ein ffydd yn yr Arglwydd? Ond beth am fod yn grac? Ydy hynny'n iawn? Mi ddweden i ei fod e.

### Herio anghyfiawnder

Mi oedd Iesu'n cael achos i fod yn grac weithiau (er ei fod yn arfer hir amynedd gyda phobl, gan mwyaf) am ei fod e'n gweld anghyfiawnderau ac yn deall bod angen gwneud rhywbeth am hynny, fod angen herio'r *status quo* am mai gwarchod buddiannau'r lleiafrif pwerus, cyfoethog y mae hwnnw (ac yn dal i wneud hynny heddiw). Mae rhywun yn medru adnabod anghyfiawnder ond sut mae newid yr anghyfiawnder hwnnw? Yn y deml, ynghanol yr holl fasnachwyr ariangar, y twyllwyr, y lladron a'r cybyddion, mi drodd Iesu'r byrddau wyneb i waered gan sarnu'r cyfan, achosodd anrhefn a llanast am fod pob dim yn anghywir yn y system fel ag yr oedd, y cyfan wedi'i lygru. Roedd am newid y system, ei dileu ac am ddechrau eto. Yn ei bregethau, byddai'n dangos i bobl sut oedd meddwl yn hollol wahanol i'r 'norm' cymdeithasol, am fod y norm hwnnw'n anghyfiawn. Fe wela i dwpdra dyn ond yn rhy glir. Yr oedd Iesu'n bod yn radical yn yr hyn a ddywedai ac yn yr hyn a wnaeth. Credai mewn cariad, am mai cariad a brawdoliaeth oedd yr unig ateb, *yw* yr unig ateb. Ond weithiau, mi fyddai'n colli ei dymer, pan yr ymddangosai nad oedd pobl yn gwrando, nad oedd pobl yn deall bod cymdeithas anghyfartal, anghyfiawn yn brifo *pawb*.

### Gwres a ffrwyth ein dicter

Ac felly, dyma ni, yr hil ddynol, ddwy fil o flynyddoedd ar ôl i ni glywed yr hyn oedd gan Iesu i'w ddweud, ar ôl i ni dystio i'r hyn a ddangosodd i ni am sut y dylem ni fyw – mae'n ymddangos nad ydym ni wedi deall (neu yn hytrach nad oeddem ni *am* ddeall), neu ein bod ni wedi anghofio'r holl wersi. A nawr mae'r byd yn cynhesu hyd at ferwi, ffoaduriaid yn fodlon peryglu eu bywydau er mwyn dianc o sefyllfaoedd enbydus, rhyfeloedd, y tlawd yn mynd yn dlotach, hawliau menywod yn cael eu herydu, creulondeb tu hwnt i bob amgyffred yn cael ei brofi ymhob man, ac anghyfiawnderau rif y gwlith. Felly, mae'n RHAID i ni fod yn grac! Mae'n *ddyletswydd* arnom ni fel Cristnogion i fod yn gandryll am yr holl bethau hyn. Mae hefyd yn ddyletswydd arnom, o wres ein dicter, ein bod ni'n *gwneud* pethau, yn *dweud* pethau – waeth pa mor fychan bynnag – er mwyn dangos bod modd i bethau fod yn wahanol a hefyd fod rhai pobl yn credu mewn pethau da, mewn rhannu, mewn bod yn egwyddorol, mewn meddwl am eraill a chredu mewn cariad. Ac mae'n bwysig nad ydym ni'n gadael i'r emosiwn hwnnw bylu chwaith, achos hwnnw fydd yn ein hegnïo ni i beidio â bod yn ddiymadferth, i beidio â rhoi'r gorau i bethau, i beidio ag anobeithio. Mae *pob un* ohonom yn gwneud gwahaniaeth, mae *pob un* ohonom yn cael effaith, mae *pob un* ohonom yn cyfrif.

### Gobaith y cariad dwyfol

Ac y mae gobaith yn rhan hanfodol o'r dicter hefyd, oherwydd heb y gobaith am newid, am weld bywyd yn ei gyflawnder, yna'r unig beth sydd gennym yw emosiynau negyddol a dinistriol. Mae gobaith, ynghyd â'r dicter yn erbyn anghyfiawnder yn medru *cyflawni* pethau, yn medru cael pethau i ddigwydd. Yn wir, gobaith yw'r hyn sy'n ein cael ni o'n gwlâu bob bore, diolch byth. (Neu dyna sy'n fy nghael i mas o'r gwely, ta beth.) Wy hefyd wedi cyfeirio cyn hyn at gyfrol fer, bwerus yr athronydd Rebecca Solnit, *Hope in the Dark*, sy'n ymdriniaeth ar optimistiaeth ar gychwyn yr unfed ganrif ar hugain. Ac yng ngeiriau'r meddyliwr mawr o Gymro, Raymond Williams, 'Mae bod yn hollol radical yn gwneud gobaith yn bosibl yn hytrach na gwneud i anobaith ymddangos fel peth anorfod a diamau.'

Ac er mwyn dyn, mae'n anhygoel o bwysig i ni beidio ag anobeithio, peidio â cholli gobaith a dal ati i gofio mai cariad Duw yw ein gobaith cyson ni bob dydd, bob tro. Ffydd. Gobaith. Cariad.

**Elinor Wyn Reynolds**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

# GWEDDI'R APÊL FAWR: FFYNHONNAU BYW

Dduw Cariad,
ym mhob cenhedlaeth
dangosaist dy hun fel un sy'n cofio'r tlawd a'r newynog,
yn amddiffyn y bregus a'r gwan,
ac yn anrhydeddu'r rhai hynny sy'n 'neb'.
Ac ym mhob oes gwahoddaist rai i ymuno â thi
yn y gwaith o sicrhau cyfiawnder a heddwch,
urddas a chydraddoldeb i bawb.

Diolch am y cyfle newydd hwn i ymuno gyda Chymorth Cristnogol a'i phartneriaid a chefnogi'r ymdrech dros gyfiawnder, yng Ngholombia ac ar draws y byd.

Dduw Cariad, drwy ein hapêl, Ffynhonnau Byw,
heria ni yn ein dewisiadau ffôl a'n ffordd o fyw barus heddiw,
a helpa ni i gwestiynu'r hyn yr ydym yn ei weld a'i glywed nawr.

Tra byddwn ni'n gwneud ein dewisiadau hunanol bod dydd i brynu ein moethbethau,
yr wyt ti'n gweld y rhai sydd a'u dewisiadau sylfaenol wedi eu cymryd oddi wrthynt.

Tra byddwn ni'n llusgo'n traed ynglŷn â'n defnydd o danwydd ffosil,
yr wyt ti'n gweld y rhai sydd a'u cartrefi yn cael eu sgubo ymaith gan lifogydd a'u tir yn llosgi gan sychder.
Tra byddwn ni'n anghytuno am sut orau i warchod yr amgylchedd,
yr wyt ti'n gweld y rhywogaethau sy'n diflannu a'r cymunedau sy'n cael eu dadleoli.

Tra byddwn ni'n codi ein llais dros ein hawl i wneud yr hyn a fynnwn,
yr wyt ti'n gweld y rhai sy'n cael eu bygwth a'u lladd am siarad dros bobl heb lais.

Tra byddwn ni'n dadlau am werth cyfiawnder rhywedd,
yr wyt ti'n gweld y gwragedd sy'n cael eu gwahardd rhag perchen tir.

Tra byddwn ni'n chwilio am yr addysg orau i'n plant,
yr wyt ti'n gweld y rhai na fydd byth yn goroesi plentyndod.

Dduw Cariad, bydded i'n hapêl, Ffynhonnau Byw, agor ein llygaid a'n clustiau
i weld y byd yr wyt ti yn ei weld
a chlywed y lleisiau yr wyt ti yn eu clywed.
I sefyll mewn undod gyda chymunedau yng Ngholombia ac o amgylch y byd,
i ymateb i'w hangen,
i wrando ar eu dyheadau am gyfiawnder,
i rannu eu dicter a'u gobeithion,
i ymddiried ynddynt,
a chydweithio gyda hwy dros yfory gwell,
gan helpu dwyn y greadigaeth gyfan i undod yng Nghrist.

Amen

# O DDYFODOL YR IAITH I DDYFODOL Y BYD – *parhad*

Cytunodd yr Undeb y dylid:

- Pwyso ar unrhyw lywodraeth newydd allai ddod i rym ar ôl Etholiad Cyffredinol i ddiddymu'r deddfau hyn ar fyrder;
- Annog yr heddlu i fod yn ofalus iawn am sut y maent yn defnyddio'r pwerau newydd;
- Annog y llysoedd i gydnabod yr hawl i brotestio'n heddychol trwy beidio â bod yn llawdrwm ar ddiffynyddion.

Gan ei bod hi'n debygol mai dim ond llywodraeth Lafur newydd fyddai'n fodlon ystyried diddymu'r deddfau, fe wnaeth yr Ysgrifennydd Cyffredinol anfon y llythyr hwn at Syr Keir Starmer ar ran yr Undeb:

Yn ein Cyfarfodydd Blynyddol diweddar, derbyniwyd yn unfrydol benderfyniad oedd yn galw ar lywodraeth nesaf y DU i ddiddymu'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus (2023). Credwn fod y gyfraith hon, ynghyd â Deddf yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd (2022) wedi newid y berthynas rhwng y wladwriaeth a'i dinasyddion i raddau annerbyniol. Rydym yn eu hystyried yn weithredoedd sy'n erydu'r hawl i ymgyrchu ar faterion difrifol iawn sy'n achosi gofid gwirioneddol. Yn benodol, rydym yn pryderu am y diffiniad cyfreithiol annelwig o'r hyn a olygir fel 'niwsans cyhoeddus neu aflonyddwch.'

Credwn fod y deddfau hyn yn mynd yn groes i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sef Erthygl 10: Rhyddid mynegiant ac Erthygl 11: Rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu. Nodwn fod Volker Türk, Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig, wedi dweud bod y deddfau newydd 'yn anghydnaws â rhwymedigaeth ryngwladol y DU ynghylch hawliau pobl i ryddid mynegiant a chynulliad heddychlon ... ac yn gosod sancsiynau troseddol diangen ac anghymesur ar bobl sy'n trefnu neu'n cymryd rhan mewn protestiadau heddychlon.'

Mae'n destun pryder fod y cyfreithiau hyn wedi'u cyflwyno'n benodol i dargedu gweithredu di-drais gan y rhai sy'n protestio am faterion amgylcheddol. Wrth i fyd Duw wynebu argyfyngau newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llygredd, fel Cristnogion credwn y dylai protestiadau heddychlon ar bynciau difrifol o'r fath gael eu parchu gan Lywodraeth y DU, yn hytrach na gwneud protestwyr yn droseddwyr a'u cosbi'n llym.




# CYDNABOD CYFRANIAD ALLWEDDOL BETI-WYN – parhad

### Ymgorfforí'r Gwerthoedd Cristnogol

Ychwanegodd Dr Lloyd bod yr oedfaon yn ystod y cyfnod clo wedi cwrdd ag angen mawr trwy roi ffydd a chwmni gwerthfawr i dros 2,000 o ddilynwyr o bob rhan o'r byd, a bod yr oedfaon hynny'n parhau o hyd bob dydd Sul gyda channoedd yn eu dilyn.

'Er ein bod yn gwbl rydd erbyn hyn o hualau'r clo mawr, mae Beti-Wyn yn gwybod mor allweddol y mae'r gwasanaethau, ac yn wir, y gwerthoedd Cristnogol y mae hi'n eu hymgorffori, i eraill. Nid yw gwaith gweinidog yn hawdd a gallaf dystio fod Beti-Wyn wedi cael llawer o wasanaethau anodd a thrist i'w gweinyddu dros y blynyddoedd,' meddai Dr Lowri Lloyd, ac wrth droi at Beti-Wyn dywedodd: 'I gynifer o deuluoedd, mae eich presenoldeb a'ch gofal wedi bod yn amhrisiadwy. Gallaf dystio'n bersonol i ti gynnal teuluoedd sydd wedi profi colledion annhymig o gynnar gan wneud hynny gydag urddas a dewrder. Ti, iddyn nhw, fu'r allwedd i'r goleuni mewn cyfnod o dywyllwch a chaethiwed.'

### Person prysur!

Yn weinidog ers 30 mlynedd, daeth y Parchg Beti-Wyn James i Gaerfyrddin yn 2002 i wasanaethu yn y Priordy, Cana a Bancyfelin. Mae hi hefyd yn llywodraethwr yn Ysgol y Dderwen ac Ysgol Gyfun Bro Myrddin, gwirfoddolwr gweithgar gyda'r banc bwyd lleol, cyflwyno'r oedfa Sul wythnosol ar Radio Glangwili, cyn-lywydd Undeb yr Annibynwyr a chaplan maer tref Caerfyrddin am y degfed tro eleni. Yn awdures ac yn fardd sydd wedi ennill sawl cadair, mae'n aelod o Orsedd y Beirdd, ac yn dechrau yn ei rôl newydd fel Arwyddfardd eleni. Ond yn fwy na dim byd arall, 'Mam' yw Beti-Wyn i Elin Wyn a Sara Llwyd.

### Gwrando ar y galon

Wrth dderbyn yr anrhydedd ac annerch y gynulleidfa o raddedigion newydd, dywedodd Beti-Wyn: 'Pe bydden i wedi gwrando ar bobol yn lle gwrando ar fy nghalon fy hunan mae'n bosib na fyddem yn weinidog heddiw. Rwy'n credu bod yna wers yma i ni gyd, yn enwedig i chi sy'n graddio heddiw ac yn cychwyn ar gyfnod cyffrous iawn yn eich bywydau. Rydych wedi profi yn barod bod y gallu gyda chi ond cofiwch, mae angen angerdd fan hyn hefyd. Dilynwch ddymuniad eich calon a'ch breuddwyd – er efallai y bydd y freuddwyd honno yn wahanol i'r hyn mae eraill yn disgwyl oddi wrthych.'

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## Sul Sbesial iawn yn Yr Egin!

Roedd 160 o oedolion a phlant yng ngŵyl flynyddol Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yn Yr Egin S4C, lle cafodd defnydd llawn ei wneud o'r adnoddau digidol. Cyflwynwyd Dameg yr Heuwr gan ysgol Sul Blaen-y-coed cyn i Catrin Stevens (dde) adrodd hanes deiseb fawr 1923. Arweiniwyd sesiwn i'r plant gan Carys Davies a'i chriw o Beniel, a bu Band y Priordy yn cyfeilio i'r emynau'n rymus. Bydd erthygl am y ddeiseb mewn rhifyn o'r *Tyst* eto.











Roedd bwrlwm bendithiol a llwyddiant yr achlysur yn denu'r fath nifer o bobol o bob oed yn profi gwerth cynnal addoliad mewn lleoliad cyfoes a chyffrous. Wrth fwynhau cacen a choffi a chymdeithasu yng nghaffi mawr Yr Egin, gyda'r golygfeydd eang dros gefn gwlad ar bnawn heulog, doedd neb ar frys i adael. Fe wnaeth y cyfundeb gynnal y Sul Sbesial cyntaf erioed yn 2007, gan symud i wahanol leoliadau gan gynnwys ysgolion, neuaddau pentre ac yn yr awyr agored yng Nghaerfyrddin.



**EGLWYS RYDD HAMPSTEAD GARDEN SUBURB**

Central Square, Llundain NW11 7AG

Mae croeso cynnes i bawb i ymuno gyda ni yn

**OEDFA SEFYDLU'R PARCH ALED JONES**

yn yr Eglwys Rydd ar

**brynhawn Sadwrn 2 Medi am 2 o'r gloch**

Darperir lluniaeth wedi'r oedfa



*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*